





sense cymru

# Welcome to TouchBase Wales

A bespoke facility for people with single or multi-sensory impairment and other disabilities, a resource for the whole community



# Our **story**

TouchBase Wales is Sense Cymru's first community support base for adults with a multi-sensory impairment, or a single-sensory impairment with additional needs.

The doors to TouchBase Wales opened in October 2015 but our journey towards this exciting phase in our history has been a long one. Sense Cymru has provided specialist support in the community to deafblind people across Wales since 1993. Our specialist Communicator Guide, Intervenor, Outreach, Transitions and Family Support services have consistently grown by reaching out to an additional 100 deafblind adults, young people, children and their families each year to offer well-being support and specialist services.

In this time we've built up a wealth of knowledge, expertise and experience, all of which has been brought together to provide creative support for individuals in this new community-based setting.

By choosing TouchBase Wales you will be opening the door to a wide range of activities created to stimulate and challenge. Our support is designed around the choices and well-being outcomes of each individual. We provide meaningful activities that promote the development of life skills, choice, communication, creative expression and support people to establish a sense of worth and enjoyment.

TouchBase Wales will provide a range of outreach and community-based services which enable people to play a full part in the life of the local area.



***"I am more confident now than I was before. Sense staff encourage me to get things done with just a little bit of support"***

# What we **offer**

We support adults with multi-sensory impairment, or a single-sensory impairment with additional needs. Sessions can also be tailor-made to suit individual or group needs.

## What we do?

We provide a range of support to help people to develop skills and link in with the local community. We provide opportunities to meet others, develop friendships and connections and have a sense of belonging. We focus on people's abilities, supporting them to have fun and achieve the things they want. We offer a stimulating person-centred programme of sensory, creative, leisure and sports activities.

TouchBase Wales will also serve as a community resource, providing space to offer specific sessions to meet the needs of older people and families.

## How often?

We can deliver support on a regular or occasional basis. We can arrange for a number of one-to-one and/or group sessions across the week, at evenings and at weekends.

## The team

Our staff team is made of people with a wide range of skills and experience. This includes skills in a range of communication methods such as British and Welsh Sign Language, the deafblind manual alphabet, symbols and Objects of Reference. Staff also hold Quality and Credit Framework (QCF) awards in relevant subjects.

Our staff team are knowledgeable and creative. They explore new approaches as the people we support grow in confidence and their aspirations change.



***"We have an excellent relationship with the practitioners involved with our family. They are knowledgeable and responsive, always happy to help"***

# A stimulating programme of **activities**

We provide dynamic and skill-based sessions with an emphasis on building each person's confidence and communication skills. This includes:

- Arts and well-being – everything from creating and exhibiting art and craft pieces to taking part in innovative musical and theatrical performances
- Promoting fitness and healthy lifestyle choices, including by engaging with facilities in the community
- Learning cookery skills and enjoying food
- Using computers for learning and fun
- Providing sensory experiences through music and touch interaction
- Offering pampering experiences and opportunities to explore identity and independence

# Part of the **community**

We organise trips and visits from the base to the local community including to the leisure centre, swimming pool, parks, shops and various arts events. We also arrange trips further afield – to farms, activity centres and to access bespoke opportunities for the people we support, including opportunities to connect with young people and peers across the country.



*"I love coming to the activities with you and trying out new things"*

# Our services are **different**

## We support people as individuals and we meet each person's needs and specific requirements. People have a voice in how the service is run.

Our new building and services have been co-designed by people who use our services.

We support people to participate in the community.

Every person is supported to choose what they want to do, including how they want to spend their days and what they want to achieve in the longer term, which is detailed in their own plan.

We nurture the support of family networks, friends and relationships and support people to take part in community-based activities so they can achieve their aims and aspirations.

We celebrate success so others can see what is possible.

Families are always welcome.



***"I can choose what I like to do"***

# Our **building and services**

## The purpose-built interior of the building offers a high quality environment that is wheelchair accessible and facilitates a wide range of social and learning activities.

We have fully accessible toilets and changing rooms with a tracking hoist system, a mobile hoist, and adequate space for the individual and two members of staff.

There is a fully accessible kitchen that enables people with a wide range of disabilities to use it – such as induction cooking hobs, washing up sink and surfaces that can all be raised and lowered. The multi-sensory room will offer a stimulating, sensory environment where individuals can experience and control a range of lighting, music and sensations – including by using their own phones and tablets. This presents itself as an ideal environment for assessing an individual's hearing and vision.

Multi-purpose areas offer space and opportunity for people to get together and to be creative. Artistic expression is a key theme in our activities and these areas are well-equipped with materials to support the various artistic projects running at any one time – whether that be preparation for an exhibition or an individual's work for a particular project. These areas also act as a hub for social interaction and games time, and are fully equipped with an electronic whiteboard to facilitate group activities.

Our lounge room is a sanctuary to escape to for time alone and the perfect setting for delivering beneficial touch interaction.

There is ample space for safely storing equipment throughout the building.



# Outcomes

We will provide clear evidence that TouchBase Wales is delivering on people's well-being outcomes.

**We will support people to:**

- Be happy and healthy
- Be able to do the things that matter to them
- Learn and develop to their full potential
- Engage and participate in their community
- Have voice and control and be involved in decisions that affect them
- Have a social life and choice about the people they spend time with

# Want to know **more?**



We welcome referrals from individuals, professionals, third and public sector organisations.

We would love to hear from you, whether you'd like to:

- Come and visit
- Talk to our Service Manager
- Be part of our team

We provide support to people who receive funding from local authorities, Health Boards and those who fund themselves. We can advise you about these options when you get in touch.

# About **Sense Cymru**

Sense Cymru is a national charity supporting and campaigning for children and adults who are deafblind and those with sensory impairments. We are part of Sense, the UK deafblind charity, which operates across England, Wales and Northern Ireland.

We provide tailored support, advice and information as well as specialist services to all deafblind people, their families, carers and the professionals who work with them. We also support people who have a single-sensory impairment with additional needs.

We believe that every deafblind person has the right to choose the support and lifestyle that is right for them; one that takes into account their long-term hopes and aspirations. Our specialist services enable deafblind people to live as independently as possible, offering a range of housing, education and leisure opportunities.






**TouchBase Wales**
Caerphilly Business Park
Van Road
Caerphilly
CF83 3ED

0300 330 9280
cymruenquiries@sense.org.uk







sense cymru

# Croeso i CanolBwynt Cymru

Cyfleuster pwrpasol i bobl â nam synhwyraidd neu nam amlsynhwyraidd ac anableddau eraill, adnodd ar gyfer yr holl gymuned

# Ein **stori**

## CanolBwynt Cymru yw canolfan cymorth cymunedol cyntaf Sense Cymru i oedolion â nam amlsynhwyraidd, neu sydd â nam synhwyraidd ac anghenion ychwanegol.

Agorodd drysau CanolBwynt Cymru yn Hydref 2015 ond bu'r daith tuag at y bennod gyffrous hon yn ein hanes yn un hir. Bu Sense Cymru'n darparu cefnogaeth arbenigol yn y gymuned i bobl byddarddall hyd a lled Cymru ers 1993. Mae ein gwasanaethau arbenigol - Tywyswyr Cyfathrebu, Ymeiriolwyr, Gwasanaethau Allgymorth, Pontio a Chymorth i Deuluoedd - wedi tyfu'n gyson trwy estyn allan at bron i 100 o oedolion, pobl ifanc a phlant byddarddall a'u teuluoedd bob blwyddyn i gynnig cymorth a gwasanaethau llesiant arbenigol.

Dros y cyfnod hwn bûm yn meithrin y wybodaeth, profiad a'r arbenigedd angenrheidiol i ddarparu'r gefnogaeth greadigol sydd ar gael i unigolion yn ein lleoliad cymunedol newydd.

Drwy ddewis CanolBwynt Cymru byddwch yn agor y drws i ystod eang o weithgareddau a grëwyd i ysgogi a herio. Cynlluniwn ein cymorth gyda dewisiadau a chanlyniadau llesiant pob unigolyn yn ganolog. Rydym yn darparu gweithgareddau ystyrlon sy'n hyrwyddo dewis, datblygu sgiliau bywyd, cyfathrebu a mynegiant creadigol, ac rydym yn cefnogi pobl i sefydlu ymdeimlad o werth a mwynhad.

Bydd CanolBwynt Cymru yn darparu ystod o wasanaethau allgymorth yn y gymuned sy'n galluogi pobl i chwarae rhan lawn ym mywyd yr ardal leol.



***"Rwy'n fwy hyderus nawr nag yr oeddwn o'r blaen. Mae staff Sense yn fy annog i gyflawni pethau gydag ond ychydig o gymorth"***

# Yr hyn a **gynnigiwn**

Rydym yn cefnogi oedolion â nam amlsynhwyraidd, neu nam synhwyraidd ac angenhenion ychwanegol. Gall sesiynau gael eu teilwra i fod yn addas at anghenion unigolion neu grwpiau.

## Yr hyn a wnawn

Rydym yn darparu ystod o gymorth i helpu pobl i ddatblygu sgiliau a chysylltu â'r gymuned leol. Rydym yn darparu cyfleoedd i gyfarfod ag eraill, datblygu cyfeillgarwch a chysylltiadau, ac i feithrin ymdeimlad o berthyn. Rydym yn canolbwyntio ar alluoedd pobl, eu cefnogi i gael hwyl a chyflawni'r pethau y maent am wneud. Rydym yn cynnig rhaglen ysgogol o weithgareddau synhwyraidd, creadigol, hamdden a chwaraeon sydd â'r unigolyn yn ganolog.

Bydd CanolBwynt Cymru hefyd yn gwasanaethu'r gymuned drwy gynnig lleoliad i ddarparu sesiynau penodol i gwrdd ag anghenion pobl hŷn a theuluoedd.

## Pryd?

Gallwn ddarparu cefnogaeth yn rheolaidd neu'n achlysurol. Gallwn drefnu nifer o sesiynau un-i-un a/neu grŵp drwy'r wythnos, gyda'r nos ac ar benwythnosau.

## Y tîm

Mae'n tîm staff yn cynnwys  pobl ag ystod eang o sgiliau a phrofiad. Ymysg y rhain mae sgiliau mewn ystod o ddulliau cyfathrebu megis Iaith Arwyddion Prydain a Chymru, yr wyddor llaw fyddarddall, symbolau, a Gwrthrychau Gorchwyl. Hefyd, mae gan staff gymwysterau Fframwaith Ansawdd a Chredydau (QCF) mewn pynciau perthnasol.

Mae ein tîm o staff yn wybodus ac yn greadigol. Maent yn dod o hyd i ddulliau newydd o ysgogi'r bobl rydym yn eu cefnogi wrth iddynt dyfu mewn hyder ac wrth i'w dyheadau newid.



***"Mae gennym berthynas ardderchog gyda'r ymarferwyr sy'n ymwneud â'n teulu. Maent yn wybodus ac yn ymatebol, bob amser yn hapus i helpu"***

# Rhaglen o weithgareddau **ysgogol**

Rydym yn darparu sesiynau deinamig i ddatblygu sgiliau gyda phwyslais ar fagu hyder a chyfathrebu'r unigolyn. Mae hyn yn cynnwys:

- Y celfyddydau a llesiant - amrediad llawn o weithgareddau: o greu ac arddangos darnau celf a chrefft i gymryd rhan mewn perfformiadau arloesol cerddorol a theatrig
- Hyrwyddo ffitrwydd a dewisiadau iachus, gan gynnwys drwy ymgysylltu â chyfleusterau yn y gymuned
- Dysgu sgiliau coginio a mwynhau bwyd
- Defnyddio cyfrifiaduron ar gyfer dysgu a hwyl
- Darparu profiadau synhwyraidd trwy gerddoriaeth a chyffwrdd
- Profiadau llesiant a harddwch, a chyfleoedd i archwilio hunaniaeth ac annibyniaeth

# Rhan o'r **gymuned**

Rydym yn trefnu tripiau ac ymweliadau o'r ganolfan i'r gymuned leol, gan gynnwys y ganolfan hamdden, y pwll nofio, parciau, siopau ac amryw o ddigwyddiadau celfyddydol. Rydym hefyd yn trefnu tripiau tu hwnt i'r gymuned leol - i ffermydd, canolfannau gweithgareddau ac i fanteisio ar gyfleoedd pwrpasol ar gyfer y bobl rydym yn eu cefnogi, gan gynnwys cyfleoedd i gysylltu â phobl ifanc a chymheiriaid ar draws y wlad.



***"Rwy wrth fy modd yn dod i'r gweithgareddau gyda chi a rhoi cynnig ar bethau newydd"***

# Mae ein gwasanaethau yn **eithriadol**

## Rydym yn cefnogi pobl fel unigolion ac rydym yn cwrdd ag anghenion a gofynion penodol pob unigolyn. Mae gan bobl lais yn y modd y mae'r gwasanaeth yn cael ei redeg.

Cydgynlluniwyd ein hadeilad a'n gwasanaethau newydd gyda'r bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau.

Rydym yn cefnogi pobl i gymryd rhan yn y gymuned.

Mae pob person yn cael ei gefnogi i ddewis yr hyn y maent am ei wneud, gan gynnwys sut y maent am dreulio eu dyddiau a'r hyn y maent am ei gyflawni yn y tymor hir, ac fe fanylir hyn yn eu cynllun personol.

Rydym yn meithrin cefnogaeth rwydweithiau teuluol, ffrindiau a pherthnasau ac yn cefnogi pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned er mwyn iddynt gyflawni eu nodau a'u dyheadau.

Rydym yn dathlu llwyddiant er mwyn i bobl eraill weld yr hyn sy'n bosibl.

Mae croeso i deuluoedd bob amser.



***"Galla'i ddewis be dwi'n hoffi gwneud"***

# Ein **adeilad a'n gwasanaethau**

## Dyluniwyd stafelloedd ein hadeilad, sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn, at ddiben darparu amgylchedd ansawdd uchel i gynnal ystod eang o weithgareddau cymdeithasol a dysgu.

Mae gennym doiledau gwbl hygyrch ac ystafelloedd newid sydd â system codi, teclyn codi symudol, a digon o le ar gyfer yr unigolyn a dau aelod o staff.

Mae cegin cwbl hygyrch sy'n galluogi pobl sydd ag ystod eang o anableddau i'w ddefnyddio, gan gynnwys hobiau coginio saff ac arwynebau gwaith a sinc golchi llestri y gellir codi a gostwng.

Bydd yr ystafell amlsynhwyraidd yn cynnig amgylchedd ysgogol, synhwyraidd lle gall unigolion gael profiad o reoli ystod o oleuadau, cerddoriaeth a synwyriadau - gan gynnwys trwy ddefnyddio eu ffonau a'u tabledi eu hunain. Mae'r amgylchedd hon yn ddelfrydol ar gyfer asesu clyw a golwg unigolyn.

Mae'r ardaloedd amlbwrpas yn cynnig lle a chyfle i bobl ddod at ei gilydd ac i fod yn greadigol. Mae mynegiant artistig yn thema allweddol yn ein gweithgareddau ac mae'r meysydd hyn yn llawn offer a deunyddiau i gefnogi'r gwahanol brosiectau celfyddydol sydd ar gael ar unrhyw adeg benodol - boed hynny'n paratoi ar gyfer arddangosfa neu waith annibynnol unigolyn ar gyfer prosiect penodol. Cyniga'r ardaloedd hyn canolbwynt er mwyn cymdeithasu a chwarae gemau, mae digonedd o adnoddau i hwyluso gweithgareddau grŵp, gan gynnwys bwrdd gwyn electronig.

Noddfa yw'r lolfa. Mae'n leoliad i'w ddianc iddi er mwyn cael amser unigol ac yn le perffaith i gynnal sesiwn gyffwrdd llesol.

Mae nifer o storfeydd o gwmpas yr adeilad i gadw offer.



# Canlyniadau

## Byddwn yn darparu tystiolaeth glir bod CanolBwynt Cymru yn cyflawni ar ganlyniadau llesiant pobl.

### Cefnogwn pobl i:

- Fod yn hapus ac yn iach
- Gwneud y pethau sy'n bwysig iddynt
- Dysgu a datblygu i'w llawn botensial
- Ymgysylltu a chymryd rhan yn eu cymuned
- Cael llais a rheolaeth a bod yn rhan o'r penderfyniadau sy'n effeithio arnynt
- Cael bywyd cymdeithasol a'r gallu i ddewis y bobl y maent yn treulio amser gyda



# Eisiau gwybod **mwy?**

Croesawn gyfeiriadau gan unigolion, gweithwyr proffesiynol, y trydydd sector a'r sector cyhoeddus.

Byddem wrth ein bodd yn clywed gennych:

- Dewch i ymweld
- Siaradwch â Rheolwr y Gwasanaeth
- Ymunwch â'n tîm

Rydym yn darparu cefnogaeth i bobl lle mae ei gofal a chymorth yn cael ei ariannu gan awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd a'r rhai sy'n ariannu gofal a chymorth eu hun. Gallwn eich cynghori ynghylch yr opsiynau posib pan fyddwch yn cysylltu.

# Am **Sense Cymru**

Sense Cymru yw'r elusen genedlaethol sy'n cefnogi ac ymgyrchu dros blant ac oedolion sy'n fyddarddall a'r rhai sydd â nam synhwyraidd. Rydyn ni'n rhan o Sense, elusen i bobl byddarddall ar draws y DU, sy'n gweithredu yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon.

Rydym yn darparu cefnogaeth, cyngor a gwybodaeth wedi'i deilwra yn ogystal â gwasanaethau arbenigol i bobl fyddarddall, eu teuluoedd, gofalwyr a'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda nhw. Rydym hefyd yn cefnogi pobl sydd â nam ar y synhwyrau ac anghenion ychwanegol.

Credwn fod gan bob person byddarddall yr hawl i ddewis y gefnogaeth a'r ffordd o fyw sy'n iawn ar eu cyfer; ffordd o fyw sy'n ystyried eu gobeithion a'u dyheadau hirdymor. Mae ein gwasanaethau arbenigol yn galluogi pobl fyddarddall i fyw mor annibynnol ag y bo modd, gan gynnig amrywiaeth o gyfleoedd ac opsiynau tai, addysg a hamdden.






**CanolBwynt Cymru**
Parc Busnes Caerffili
Heol y Fan
Caerffili
CF83 3ED

0300 330 9280
cymruenquiries@sense.org.uk